# Ymgynghoriad ar Gyfraith Cyfyngiadau Cam-drin Plant yn Rhywiol - Crynodeb o’r Ymatebion

- Roedd yr ymgynghoriad yn weithredol rhwng 15 Mai 2024 a 10 Gorffennaf 2024.

- Derbyniwyd cyfanswm o 50 o ymatebion i'r papur ymgynghori. O’r rhain, nododd 15 o’r ymatebwyr eu bod yn ddioddefwyr neu oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, 19 yn nodi eu bod yn dod o’r sector cyfreithiol, 4 yn nodi eu bod yn dod o’r sector yswiriant, 2 yn nodi eu bod o’r sector llywodraeth leol, a nododd 10 “arall” nad oeddent yn perthyn i unrhyw un o’r grwpiau hyn.

- Dadansoddwyd yr ymatebion i gael yr atebion i’r cwestiynau penodol a ofynnwyd. Ar ben hynny, archwiliwyd yr ymatebion i weld a oedd unrhyw themâu yn codi dro ar ôl tro.

- Wrth edrych ar y prif gwestiwn a ddylid dileu’r cyfnod cyfyngiad o dair blynedd ar gyfer hawliadau am anafiadau personol a ddygwyd gan ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, roedd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr o blaid.

- Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr hefyd yn gefnogi’r broses o wrthdroi’r baich profi mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol fel y byddai achos yn mynd rhagddo oni bai fod y diffynnydd yn bodloni’r llys nad yw’n bosibl cynnal gwrandawiad teg neu y byddai (y diffynnydd) yn cael ei niweidio’n sylweddol pe bai’r achos yn mynd rhagddo. Ar hyn o bryd, yr hawlydd mewn achos sydd â’r cyfrifoldeb i fodloni’r llys bod modd cynnal treial teg.

- Thema a gododd dro ar ôl tro oedd bod llawer o ymatebwyr, mewn ymateb i gwestiynau eraill, yn ailbwysleisio eu bod yn credu y dylid dileu’r cyfnod cyfyngiad yn llwyr mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol.

- Nid oedd llawer o’r ymatebwyr yn rhoi eu barn, neu nad oeddent yn teimlo eu bod yn gallu rhoi barn, ar agweddau mwy technegol yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau am y ddeddfwriaeth bresennol a chanllawiau barnwrol ar ymestyn y terfynau amser ar gyfer hawliadau, ac a ddylid cael Protocol Cyn Achos ar gyfer hawliadau am gam-drin plant yn rhywiol

- Mae’r Llywodraeth yn derbyn y safbwyntiau a fynegir gan lawer y dylid dileu’r cyfnod cyfyngiad ar gyfer hawliadau a ddygwyd gan ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol mewn perthynas â’u cam-drin. Ar ben hynny, mae’r Llywodraeth hefyd yn credu y dylid gwrthdroi’r baich profi mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol fel y gall achos fynd rhagddo oni bai fod y diffynnydd yn gallu bodloni’r llys nad yw’n bosibl cynnal gwrandawiad teg neu y byddai (y diffynnydd) yn cael ei niweidio’n sylweddol pe bai’r achos yn mynd rhagddo.